# BRITH Y GORS



## 1. STATWS BRESENNOL

### 1.1 Deddfwriaeth a statws blaenoriaeth

| | |
|---|---|
| Rhyngwladol | Cyfarwyddiaeth Cynefinoedd [a] (*Atodiad II)* |
| | Cytundeb Bern *(Atodiad II)* |
| DU a Chymru | Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (*Rhestr 5)* |
| | Blaenoriaeth CGB DU |
| | Rhestr S74 Cymru[b] |
| Gwynedd | CGB Eryri |

### 1.2 Sefyllfa yng Nghymru a thu hwnt

Cymru yw un o gadarnleoedd Brith y Gors yn Ewrop[c], ond mae'n rhywogaeth sydd wedi gostwng ym mron bob gwlad yn Ewrop, ac wedi diflannu'n llwyr o ogledd Gwlad Belg[1]. Fodd bynnag, hyd yn oed yng Nghymru mae wedi gostwng yn fawr iawn dros y 150 mlynedd diwethaf, a'i rychwant wedi gostwng 60%, a diflannodd o ddwyrain Lloegr a dwyrain yr Alban yn ddiweddar[2]. Mae colonïau yn weddol gyffredin mewn rhannau o dde-orllewin Ewrop a Chymru, er amcangyfrifir eu bod yn diflannu ar raddfa ymhell dros 10% bob degawd[3].

### 1.3 Sefyllfa yng Ngwynedd [d]

Yn ardal CGBL Gwynedd, mae'n hysbys fod Brith y Gors yn bodoli yn Llyn Tanygrisiau, Cors Gyfelog, Rhosgyll, Bryn-engan, Cors y Wlad, Hendy a ger ffordd newydd A487 Penygroes a ddatblygwyd yn ddiweddar. Yn ardal CGBL Eryri, mae dau safle wedi eu cadarnhau wedi eu canoli ar ardal Dolgellau; Cae Pencefn (Dolgellau) a Tir Stent (Cadair Idris), a daethpwyd o hyd i boblogaeth arall yn ddiweddar ym Morfa Harlech.



## 2. FFACTORAU SY'N EFFEITHIO'R RHYWOGAETH YNG NGWYNEDD [e]

- Colled cynefin addas o ganlyniad i wella porfeydd, draenio tir, coedwigo, newidiadau mewn stociau pori ac arferion, troi cefn ar bori. Mae llawer o ffermydd ar hyn o bryd yn canolbwyntio mwy ar ddefaid yn hytrach na gwartheg neu systemau pori cymysg.
- Mae poblogaethau da o Frith y Gors yn dibynnu ar gael wrth law ystod neu fosaig o gynefinoedd sydd heb eu gwella, ble y gall colonïau newydd sefydlu fel y mae'r hen rai'n diflannu. Fodd bynnag mae colled o gynefin wedi arwain at ddarnio'r mosaigau hyn sydd yn ei dro'n cael effaith tymor hir ar boblogaethau posib.
- Anawsterau rheoli pori ar lawer o'r safleoedd mwy oherwydd hawliau pori tir comin.

---

[a] Cyfarwyddeb Cyngor 92/43/GEE 21 Mai 1992 ynglyn a gwarchod cynefinoedd naturiol a ffawna a fflora gwyllt.
[b] Llywodraeth Cynulliad Cymru, Mynd yn Wyllt yng Nghymru – Rhestr o Rywogaethau a Chynefinoedd Pwysig Iawn er mwyn Gwarchod Amrywiaeth Fiolegol. Hawlfraint y Goron, 2003.
[c] *Eurodryas aurinia*
[d] O fewn y ddogfen yma mae'r term 'Gwynedd' yn cyfeirio at ardaloedd tu allan i Barc Cenedlaethol Eryri, onibai ei fod yn nodi i'r gwrthwyneb
[e] Gweler hefyd CGCau cysylltiedig am ffactorau mwy cyffredinol sydd yn effeithio ar gynefinoedd y rhywogaethau yma

## 3. CGR A CGC CYSYLLTIEDIG YNG NGWYNEDD [f]

Rhostir yr iseldir, Dolydd gwair a porfeydd yr iseldir, Porfa rhos, Gwlybtiroedd

## 4. GWEITHREDU PRESENNOL YNG NGWYNEDD

### 4.1 Diogelu safleoedd a chynefinoedd

- Gall Brith y Gors fodoli mewn ardaloedd o Wynedd a adnabyddir fel Safleoedd Bwyd Gwyllt arfaethedig, neu wedi eu dynodi yn SODdGA, GNC neu ymgeisydd ACA.
- Mae nifer o boblogaethau o Frith y Gors i'w cael mewn SoDdGAau yng Ngwynedd e.e. yng Nghors Gyfelog a Chors Geirch; mae rhan o'r Gors Geirch yn GNC
- Brith y Gors yw'r rheswm pennaf yn dynodwyd Corsydd Eifionydd yn ymgeisydd ACA; yma gwelir y metaboblogaeth fwyaf nodedig o Frith y Gors yng ngogledd Cymru.

### 4.2 Rheolaeth a Chynlluniau Gweithredu

- Rheolwyd safle Brith y Gors o ansawdd uchel o dan gynllun amaeth-gadwraeth AAS Ll**ŷn.**
- Rhannwyd posteri a chardiau cofnodi sy'n edrych ar Frith y Gors ac a gynhyrchwyd gan Gyngor Gwynedd i ysgolion lleol, i fudiadau cadwraeth eraill ac mewn sioeau amaethyddol a digwyddiadau lleol eraill.
- Mae Brith y Gors yn un o'r rhywogaethau sy'n gymwys ar gyfer derbyn cyllideb o Cronfa Her Rhywogaeth Cyngor Cefn Gwlad Cymru.

### 4.3 Arolygu, ymchwilio a monitro

- Yn 1997, cwblhaodd Cyngor Cefn Gwlad Cymru arolwg o Frith y Gors mewn safleoedd hysbys yng Ngwynedd.
- Mae Cymdeithas byd natur Gogledd Cymru wedi archwilio rhan o Ben Ll**ŷn am** F**rith y Gors.**
- Comisiynodd Cyngor Cefn Gwlad Cymru arolwg Ansawdd Cynefin o rannau yn nhirlun ymgeisydd ACA Corsydd Eifionydd yn 2002.

## 5. AMCANION Y CYNLLUN GWEITHREDU

1. Sefydlu statws a dosbarthiad cyfredol Brith y Gors yng Ngwynedd.
2. Cynnal y boblogaeth bresennol o Frith y Gors yng Ngwynedd, trwy ddiogelu, cynnal a gwella'r poblogaethau Brith y Gors presennol a'r cynefinoedd cysylltiedig.
3. Cynnal gwella cynefinoedd posib eraill ger safleoedd ble mae Brith y Gors eisoes, er mwyn cysylltu'r poblogaethau sy'n byw mewn corsydd ac i gynyddu maint y poblogaethau hyn a'u dosbarthiad.
4. I ddefnyddio Brith y Gors fel rhywogaeth flaenllaw i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd rheolaeth briodol o'i gynefinoedd cysylltiedig.

[f] Mae'r gwalchwyfyn gwenynog, Rhywogaeth Blaenoriaeth CGB y DU, yn bodoli mewn cynefin tebyg i brith y gors ac hefyd yn bwydo ar y planhigyn tamaid y cythraul fel cynronyn, ac yn cael ei chyfnodi yng Ngwynedd.

## 6. GWEITHREDU ARFAETHEDIG

| Côd | Gweithredu | Partner(iaid)[g] |
|---|---|---|
| **Polisi a Deddfwriaeth** | | |
| 1 | Defnyddio amodau cynllunio i sicrhau fod datblygiadau mewn lleoliadau sensitif yn gytûn a cadwraeth brith y gors.<br>TARGED/AMSERLEN: Cyfredol | ***CG,*** Partneriaid perthnasol |
| 2 | Ystyried dynodi safleoedd addas o bwysigrwydd ar gyfer brith y gors fel Safleoedd Bywyd Gwyllt.<br>TARGED/AMSERLEN: Cychwyn y broses dynodi. Erbyn 2005 | ***CCGC***, GGB, CG, CBNGC |
| **Rheoli a Diogelu Rhywogaethau / Cynefinoedd** | | |
| 3 | Hybu a chefnogi cynlluniau grant yn cynnwys Tir Gofal, AAS Llŷn **ac** / **neu** gytundebau rheolaethol pan fo'n briodol er mwyn sicrhau rheolaeth ffafriol o safleoedd hysbys ar gyfer Brith y Gors mawr a chanolig, ac o safleoedd posib cyfagos, gan gymryd i ystyriaeth anghenion rhywogaethau a chynefinoedd CGBLl cysylltiedig[h]<br>TARGED/AMSERLEN: Holl safleoedd adnabyddus. Erbyn 2009 | ***CCGC,*** GGB, CT, AACCG, AA, CC GCFBG, UAC, CG, UCF |
| 4 | Chwilio am arian ar gyfer rheolaeth tir drwy ddatblygu cynllun grant bioamrywiaeth, gan gynnwys grantiau ar gyfer rheolaeth addas, atgyweiriad ac/neu creu cynefin ar gyfer brith y gors.<br>TARGED/AMSERLEN: Erbyn 2005 | ***CG***, Partneriaid perthnasol |
| 5 | Sicrhau fod presenoldeb posib ac anghenion rheoli Brith y Gors yn cael eu hystyried mewn unrhyw gynlluniau rheoli perthnasol neu cynlluniau grant (yn cynnwys CRCC, CCC, Tir Gofal, AAS) drwy gysylltu (yn cynnwys ymgynghori a chynnig sylwadau) gyda'r mudiadau allweddol<br>TARGED/AMSERLEN: Cyfredol | ***CCGC***, GGB, AACCG, AA, CCth, GCFBG, CG |
| **Cyngor** | | |
| | Ni adnabuwyd dim | |
| **Arolwg, ymchwil a monitro** | | |
| 6 | Arolwg o gynefin addas i Frith y Gors, o fewn cyrraedd lleoliadau presennol neu ddiweddar yng Ngwynedd<br>TARGED/AMSERLEN: I'w osod. Erbyn 2006 | ***GGB***, CCGC, CG |
| 7 | Hybu ymchwiliadau ehangach i geisio pennu'r dosbarthiad Cyfan o Frith y Gors yng Ngwynedd<br>TARGED/AMSERLEN: Cyfredol | **BC**, CCGC, CG |
| **Cyfathrebu a chyhoeddusrwydd** | | |
| 8 | Parhau i godi ymwybyddiaeth am y bygythiadau sy'n bodoli i Frith y Gors a'i bwysigrwydd i Gymru trwy fynychu digwyddiadau a sioeau amaethyddol lleol a chynhyrchu deunyddiau addysgiadol / cynghorol | ***CG,*** GGB CCGC, CBNGC |

[g] Y prif bartner ar gyfer y gweithredu yma wedi ei nodi gyda ysgrifen dywyll, gweler rhan 7.2 am eglurhad o'r byr foddau

## 7 PARTNERIAID A CHYFLEON

### 7.1 Prif bartner ar gyfer CGR

Gwarchod Gloynnog Byw (GGB)

### 7.2 Partneriaid allweddol

Adran yr Amgylchedd, Cynllunio, a Chefn Gwlad (Llywodraeth Cynulliad Cymru) (AACCG)

Asiantaeth Amgylchedd (AA)

Comisiwn Coedwigaeth (CCth)

Cymdeithas y Tirfeddianwyr (CyT)

Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC)

Cyngor Gwynedd (CG)

Grwp Cynghori Ffermio a Bywyd Gwyllt (CCFBG)

Undeb Amaethwyr Cymru (UAC)

Undeb Cenedlaethol y Ffermwyr (UCF)

Cymdeithas Byd Natur Gogledd Cymru (CBNGC)

### 7.3 Cyfleon

Cofnodwyr Sirol, Gwirfoddolwyr

## 8 DIOLCHIADAU

Prif awdur: Nerys Davies (CG)
Ymgynghorydd: Dylan Lloyd (CCGC), Andrew Graham (GGB), Mike Howe (CCGC), Adrian Fowles (CCGC), Peter Jones (CCth), Russel Hobson (GGB)
Ffotograff: Ian MacFadyen

## 9. BYRFODDAU

CGB: Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth, ACA: Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, CGR: Cynllun Gweithredu Rhywogaeth, SoDdGA: Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, AAS: Ardal Amgylcheddol Sensitif, CRCC: Cynllun Rheolaeth Coetiroedd Cynhenid, CCC: Cynllun Gran Coetiroedd, AAS: Ardal Amgylcheddol Sensitif.

Fersiwn 1 , 2004

---

[1] CGB Y DU i Frith y Gors